y dinesydd

www.dinesydd.com

Mawrth 2008 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Rhif 326

Sêr ac Enwogion yng Nghyngherddau'r Eisteddfod

Bydd Eisteddfod Genedlaethol Gaerdydd a'r Cylch yn agor yn swyddogol ar nos Wener, Awst 1af gyda chyngerdd **TRI10** sef cyfle i ddathlu addysg Gymraeg yng Nghaerdydd a phenblwyddi arbennig y ddwy ysgol uwchradd.

Nos Sadwrn, Awst 2ail cynhelir noson o gerddoriaeth amrywiol gan **Gorau a Bandiau Ysgolion Uwchradd Caerdydd a'r Fro** gyda'r **Gymanfa Ganu** draddodiadol, o dan arweinyddiaeth Alun Guy, yn dilyn ar Nos Sul, Awst 3ydd.

Croesawn Bryn Terfel yn ôl i lwyfan y Brifwyl ar Nos Lun wrth i'r Eisteddfod lwyfannu **Offeren Verdi**. Yn rhannu'r llwyfan gyda Bryn bydd y soprano Anja Harteros a Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC.

Talwrn teyrnged i un o arwyr Cymru ar nos Fawrth, Awst 5ed mewn noson arbennig **Grav – Yma o Hyd.** Ymunwch â ffrindiau a rhai o hoff artistiaid Grav wrth i ni ddathlu bywyd y cawr o Fynyddygarreg.

Cawn noson o gystadlu ar nos Fercher gan gynnwys Gwobr Richard Burton, Unawd sioe gerdd y Côr Ieuenctid dan 25 a llawer mwy. Yna ar nos Iau cynigir dewis o 2 gyngerdd: Yn Neuadd Dewi Sant gewch gyfle i fwynhau **Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru** o dan arweinyddiaeth Owain Arwel Hughes tra bydd y pafiliwn dan ei sang gyda rhai o sêr mwyaf Cymru yn llwyfannu noson yr **C Factor** gyda Connie Fisher, Cerys Mathews, Shân Cothi, Catrin Finch, Caryl Parry Jones a Chôr Cantorion.

Cynhelir cystadleuaeth y Corau cymysg ar Nos Wener ac yna i gloi'r wythnos cynhelir cyngerdd **Côr yr Eisteddfod** gyda Karl Jenkins yn arwain yr ail hanner wrth i'r Côr berfformio un o gyfansoddiadau'r cyfansoddwr o Benclawdd, Dewi Sant. Mae'n addo bod yn ddiweddglo bythgofiadwy gan fod y Côr yn ymgorfforiad o nifer o brif Gorau'r ddinas yn cynnwys: Cantorion Creigiau, Côrdydd, Côr Merched Canna, Côr Meibion Tâf, Côr Poliffonig Caerdydd, Côr Philarmonig Caerdydd, Côr Ardwyn, Côr Caerdydd ynghyd a nifer o bobl sydd wedi ffurfio côr arbennig ar gyfer yr Eisteddfod.

Mae tocynnau ar gyfer yr holl berfformiadau yma ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod drwy ffonio 0845 122 1176 neu ar lein www.eisteddfod.org.uk . Os am fanylion pellach cysylltwch â'r Swyddfa am gopi rhad ac am ddim o'r Llyfryn Cyngherddau.

Cyfle byr i ddatgan barn

Mae Cyngor Caerdydd wedi paratoi Cynllun Addysg Gymraeg sy'n egluro sut y maent yn bwriadu darparu gwasanaethau addysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog yn y ddinas. Mae'r Cyngor yn ymgynghori yn gyhoeddus ar y Cynllun ar hyn o bryd a gwahoddir sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd y gall y Cynllun effeithio arnynt.

Gellir gweld copi o'r Cynllun Drafft ar wefan www.caerdydd.gov.uk/schools neu gellir derbyn copi ar bapur drwy ffonio Hywel Jones, 029 20872736.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod yr wythnosau diwethaf a daw cyfnod yr ymgynghoriad i ben ar 14 Mawrth 2008 felly prin ddyddiau sydd ar ôl i rieni a darpar rieni bwyso i gael addysg cyfrwng Cymraeg teilwng i'w plant. Gallwch ddatgan eich barn ar y cynllun drwy e-bost i: hyjones@caerdydd.gov.uk.



Cynhelir yr Eisteddfod yn ysblander caeau Pontcanna yng nghanol Caerdydd

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Richard Lewis
Golygydd y rhifyn nesaf:
Peter Gillard
Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ebrill 2008 erbyn 21 Mawrth at:
Ann Evans
Rhosfelig, 44 Kyle Avenue
Yr Eglwys Newydd.Caerdydd. CF14 1SS
e-bost:dwyfor@hotmail.com
Ffôn: 20616231
neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:
Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP
(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk
ffôn: 01446-760007).
MANYLION CYSYLLTU
Calendr y Dinesydd
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(JamesEW@caerdydd.ac.uk; 029-2062-8754)
Hysbysebion
Siân Lewis, Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (sian@dinesydd.com; 029-2056-5658)
Derbyn a dosbarthu copïau
Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU
(ceri33@btopenworld.com; 07774-816-209)
Rhoddion a thaliadau
Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG
Noddi rhifynnau ac ymholiadau cyffredinol
Peter Gillard 01446-760007.

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan Penri Williams a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Rydym yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at: Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14 2FG .

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org

Ysgol y Berllan Deg

Daeth swyddogion o Frigad Dân Y Rhath, i roi cyflwyniad i blant blwyddyn 2 a 5 am ddiogelwch cyffredinol yn y cartref.

Fel rhan o gynllun pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd, ymwelodd Blwyddyn 5, dosbarth Mr Llewelyn â Gŵyl Iachus Ysgolion yn Ysgol Glantaf. Bu'r plant yn dawnsio ac yn dysgu am fwyta'n iach.

Daeth Alun Thomas o gwmni BT a Claire Roberts o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal cwrs ar sut i ddefnyddio cyfrifiaduron i neiniau a theidiau disgyblion Blwyddyn 6.

Bu Blwyddyn 3 a 4 yn perfformio eu gwasanaethau dosbarth o flaen y rhieni a'r disgyblion. Cafwyd perfformiadau bywiog gan Flwyddyn 4 am bwysigrwydd cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, a rhoddodd Blwyddyn 3 gyflwyniadau lliwgar yn olrhain hanes y Celtiaid.

Daeth Planed Plant i ffilmio eitemau byr ag gyfer S4C. Blwyddyn 5 gafodd y fraint o ddweud eu jocs o flaen y camera a datgan beth oedd yn cŵl ac ddim mor cŵl.

Ymwelodd Egor (sy'n byw ym Melarws) â ni cyn y gwyliau hanner tymor. Daeth i ymweld â ni gyntaf ar ddydd Gŵyl Dewi 2007 tra oedd yn cael triniaeth ar ei groen yma yng Nghaerdydd. Roedd yn braf ei weld yn gwella.

Lansiwyd pecyn newydd sbon danlli gan Crime Stoppers, 'Dewis Di' yn yr ysgol yn ddiweddar. Mae'n cynnwys pob math o weithgareddau diddorol ar gyfer amser Cylch.

Daeth Catrin Dafydd i gynnal gweithdy ysgrifennu creadigol gyda Blwyddyn 6. Roedd pawb wedi gwirioni ar ei dawn i chwarae gyda geiriau a chafodd y plant eu hysbrydoli i fynd ati i ysgrifennu. Ac yn ogystal, daeth Kate Williams i gynnal gweithdy barddoniaeth Saesneg gyda blwyddyn 3 a 4. Cafodd pawb eu cyffroi gan y dreigiau a'r jyngl.

Cadwa at dy air Rhodri - papur dyddiol yn y Gymraeg

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi lansio deiseb ar-lein yn galw ar Rhodri Glyn Thomas a Llywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Cymru'n Un:

"Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg."

Mae'r ddeiseb yn galw am gyhoeddiad newydd gan y llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â'r ymchwil sydd wedi'i gwneud gan sefydliadau profiadol yn y maes. Er mwyn ychwanegu eich enw at y ddeiseb ewch i:
http://deiseb.cymdeithas.org/

Merched y Wawr Cangen Radur

Mae'n draddodiad gan y gangen gynnal noson arbennig i ddathlu Dydd Santes Dwynwen ac eleni, fel arfer, daeth tua thrigain ynghyd yng Nghlwb Golff Radur i fwynhau cinio blasus a sgwrs.

Robin Jones oedd llywydd y noson, a'r gŵr gwadd hynaws a ffraeth oedd Peter Hughes Griffiths, Caerfyrddin. Brodor o Drefach Felindre yw Peter a thestun ei sgwrs oedd y dylanwadau a fu arno yn ystod ei blentyndod a'i ieuenctid mewn ardal wledig Gymraeg. Bu'n sôn am ddylanwad yr ysgol, y capel a'r Eisteddfodau bach a'r fraint o astudio yng Ngholeg y Drindod gyda Norah Isaac .

Dyma beth oedd siaradwr â dawn dweud. Bu'n disgrifio rhai o'r cymeriadau doniol oedd yn rhan annatod o'i fagwraeth ac mae llawer o'r hanesion ar gof a chadw yn ei lyfr *Hiwmor Shir Gâr*. Ewch allan i'w brynu - ni chewch eich siomi.

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Ffug Gyfweliadau Blwyddyn 11
Un enghraifft o'n rhaglen drylwyr ar gyfer Gyrfaoedd a Byd Gwaith yw'r ffug gyfweliadau yr ydym yn eu cynnal i gynorthwyo myfyrwyr blwyddyn 11 a 13 gyda chyfweliadau coleg, prifysgol neu fyd gwaith. Yn ystod y mis diwethaf, daeth dros 20 o gyflogwyr i mewn i'r ysgol i gynnal cyfweliadau ac rydym yn hynod o ddiolchgar iddynt am gyfrannu at lwyddiant y rhaglen hon.

Darllenwyr Brwd
Mae disgyblion o flwyddyn 7 ac 8 wedi bod yn darllen dros Gymru wrth gymryd rhan yn y cynllun Readathon noddedig yn ddiweddar! Llwyddwyd i godi £645 at elusen CLIC Sargeant, sy'n rhan o Fudiad Roald Dahl. Roedd hogi sgiliau llythrennedd a chodi arian at elusen yn ddau ganlyniad ardderchog!

Sgiliau Bywyd
Yn Ysgol y Fro rhoddir cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 ddilyn cwrs sgiliau bywyd lle maent yn astudio amrywiaeth eang o bynciau megis yr unigolyn, y teulu, y gymuned, byd gwaith a nifer o faterion cymdeithasol. Trefnwyd taith i Sir Benfro yn ddiweddar a chwaraeodd y disgyblion ran flaenllaw yn y gwaith o gynllunio a threfnu'r daith. Mae llu o weithgareddau yn digwydd bob dydd, sy'n amrywio o ddysgu sut mae newid plwg i ddysgu am ddiwylliannau eraill yng Nghymru a hyd yn oed paintballing!

Buddugoliaeth Rotari
Llongyfarchiadau mawr i dri aelod o flwyddyn 12 a enillodd gystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotari yn ddiweddar. Bu'r tîm, sef Josh Dooley, Rhian Ford a Becky Gillard yn dadlau ar y testun "Mae'r tŷ hwn yn credu fod gwefannau cymdeithasu yn bla ar gymdeithas fodern". Yn ogystal ag ennill cystadleuaeth y tîm gorau, llwyddodd yr aelodau i gipio gwobrau unigol am y cadeirydd, y cynigydd a'r gwrthwynebydd gorau.

Tîm Gymnasteg yr Ysgol

Chwaraeon
Llongyfarchiadau mawr i Steffan Jones o flwyddyn 10 sydd wedi derbyn clod rhyngwladol am gael ei ddewis i gystadlu dros Gymru yn y gemau Celtaidd a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghaerdydd. Llwyddodd i ddod yn drydydd (o drwch blewyn) yn y ras gyflym 60m ac yn ail yn y ras gyfnewid 200m.

Mae timau gymnasteg yr ysgol yn dathlu eu llwyddiant ysgubol y tymor hwn yng nghystadlaethau Caerdydd a'r Fro. Gorffennodd tîm blwyddyn 9 – 13 ar frig eu grŵp tra daeth blwyddyn 7 - 8 yn ail yn eu grŵp hwy. Mae Elinor Lewis o flwyddyn 11 yn bencampwraig y tîm o dan 19 trwy'r sir. Llongyfarchiadau mawr iddi hi ac i Finlay Haswell o flwyddyn 9 a Sophie Grisdale o flwyddyn 13 ar gael eu dewis i gynrychioli Caerdydd a'r Fro ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru a gynhelir yn fuan.

Ymweliad â'r Senedd
Cafodd un disgybl o Ysgol Bro Morgannwg gyfle yn ddiweddar i dreulio diwrnod ar brofiad gwaith yn y Senedd. Dywedodd Bethan Heslop, sy'n byw yn y Sili:

"Roedd yn wych ymweld â'r Senedd oherwydd fy mod i'n medru gweld sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio. Rwy' i wedi gweld pa mor galed y mae pawb yn gweithio dros Gymru yn y Cynulliad. Ro'n i'n gwrando ar yr Aelodau mewn pwyllgor ac ar Gwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth, Rhodri Glyn Thomas o Blaid Cymru."

"Mae diddordeb gyda fi mewn gweithio yn yr arena wleidyddol yn y dyfodol felly mae'r profiad gwaith yma wedi bod yn ffantastig. Rwy'n gobeithio gweithio yn y Senedd ryw ddydd."

"Roedd yn galonogol iawn gweld y gwrthdystiad gan Muscular Dystrophy Campaign y tu mas i'r Senedd, gyda dau o blant mewn cadeiriau olwyn oherwydd eu salwch cyhyrol a'u mam yn ymladd i gael mwy o adnoddau i'w cynorthwyo nhw."

Bethan Heslop yn cwrdd â Chris Franks, Aelod Cynulliad Plaid Cymru dros Ganol De Cymru.

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Penwythnos Teulu i Langrannog, Mawrth 28 – 30, 2008
Mae lle ar ôl i deuluoedd ar benwythnos y Fenter i Wersyll yr Urdd, Llangrannog ddiwedd y mis. Mae'r pris yn cynnwys yr holl weithgareddau, llety a bwyd a diod. Yn ogystal â'r holl weithgareddau mae'r gwersyll yn eu cynnig, bydd sesiynau i ddysgwyr dan ofal Canolfan Iaith Caerdydd ac adloniant gan Heather Jones ar y Nos Sadwrn. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Angharad – angharad@mentercaerdydd.org.

Miri Meithrin
Cynhaliwyd sesiwn Miri Meithrin yng Nghanolfan Gymunedol Maes y Coed dros hanner tymor, ac roedd y lle dan ei sang! Daeth Sam Tân i ddweud helo a chafodd y plant gyfle i chwarae ar y castell gwynt, lliwio a chwarae gyda'r soft play. Cynhelir 2 sesiwn o Firi Meithrin yn ystod gwyliau'r Pasg. Am fanylion ewch i'n gwefan neu e-bostiwch gwyneth@mentercaerdydd.org

Cwis Cymraeg
Bydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Mawrth y 30ain yn y Mochyn Du am 8yh. £1 y person.

Gweithgareddau i Ddysgwyr
Bore Coffi yn y Mochyn Du
Beth am ymuno â ni rhwng 11am a 12pm bob Dydd Mawrth am goffi a sgwrs? Rydym yn gobeithio ffurfio côr i gystadlu yn yr Eisteddfod fis Awst. Mae croeso i ddysgwyr o bob safon.

Coffi a Chlonc
Mae'r bore coffi wythnosol Coffi a Chlonc yn parhau bob Dydd Mercher rhwng 12pm a 1pm yn Bar One (lan lofft) yng Nghanolfan y Mileniwm. Mae'r sesiwn yn addas i Ddysgwyr o bob safon.

Hwyl Miri Meithrin

Cynlluniau Gofal
Bydd y cynlluniau gofal nesaf yn cael eu cynnal dros wyliau'r Pasg. Am ffurflen gofrestru, e-bostiwch gwyneth@mentercaerdydd.org

Cynhaliwyd wythnos o Gynlluniau yn Ysgol Treganna, Ysgol y Berllan Deg a Ysgol Melin Gruffydd dros wyliau hanner tymor fis Chwefror. Trefnwyd nifer o weithgareddau amrywiol ar eu cyfer gan gynnwys creu canhwyllau, losin, addurno mygiau a thaith i'r sinema i weld Alvin and the Chipmunks.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i
Michael Rowe a Siân Davies ar enedigaeth Rhodri Dylan a anwyd gartref ar 17 Ionawr. Brawd bach i Gareth.

Llongyfarchiadau i Mark a Catherine Tyler, Y Ddraenen Wen, ar enedigaeth Cerys Haf yn Ysbyty'r Brifysgol, ar 30 Ionawr, chwaer fach i Hannah Megan.

Llongyfarchiadau i Rhodri a Kathryn James, Mynydd Bychan, ar enedigaeth Honor Gwen Lloer yn Ysbyty'r Brifysgol ar 9 Chwefror. Chwaer fach i Osian ac wyres gyntaf Bryan a Val James, Llandaf, a Peter a Sue Wright, y Rhath

GWYLIAU YN FFRAINC

Bwthyn delfrydol, llawn cymeriad ger ffin Dordogne/Charente.
Tair llofft a phwll nofio. Siopau,tai bwyta, tennis a golff gerllaw.
Telerau gydol yr Haf -
£550 yr wythnos
£950 am bythefnos
Am ragor o wybodaeth ffoniwch - 02920/892230, neu gyrrwch ebost at - dilwyn.marian@virgin.net

Hwyl yn y Cynllun Gofal

Newyddion

Llongyfarchiadau i
Aled Walters, Treganna a Siân Eleri Jones gynt o Aberystwyth ar eu dyweddïad ar 25 Ionawr.

Croeso Nôl i
Richard Lewis a'i wraig Rachel sydd wedi dychwelyd ar ôl cyfnod yn Iwerddon. Mae'r Parchedig Lewis, gwraig Richard, wedi cael swydd yn gofalu am grŵp o blwyfi wedi'u canoli ar Lanbedr-y-Fro ac mae Richard yn gweithio yn swyddfa Prysg. Maen nhw'n byw yn Saint Hilari dros dro tra bod gwaith strwythurol yn cael ei wneud ar y Rheithordy yn Llanbedr-y-Fro.

"Grammy" i Rebecca
Llongyfarchiadau i'r soprano operatig, Rebecca Evans, Penarth ar ennill gwobr "Grammy" am ei recordiad o'r opera "Hansel a Gretel", gan guro Placido Domingo a Simon Keenlyside. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar ei hymddangosiad yn yr opera "Y Ffliwt Hud" gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm yn ddiweddar.

Clive yn diddanu
Nos Fawrth 12 Chwefror roedd ystafell fawr Clwb y Rec yn Rhiwbeina yn llawn i wrando ar yr enwog Clive Rowlands o Gwm Tawe yn mynd "drwy'i bethau" yn y byd rygbi. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni a gwnaethpwyd elw sylweddol tuag at Eisteddfod Caerdydd 2008. Trefnwyd y noson gan Falmai Griffiths a rhoddwyd y diolchiadau gan Alun Guy.

Prifysgol Caerdydd yn 125 oed eleni
Eleni bydd Prifysgol hynaf Cymru yn dathlu ei phen-blwydd yn 125 oed. Agorodd yn 1883 gyda 13 o staff a 151 o fyfyrwyr! Bellach mae dros 6,000 o staff a 25,000 o fyfyrwyr yn y Brifysgol! Trefnir nifer o ddigwyddiadau i ddathlu'r achlysur yn ystod y flwyddyn.

Clwb Ifor Bach yn dathlu
Eleni mae Clwb Ifor Bach yn dathlu chwarter canrif ers ei sefydlu. Gweledigaeth Owen John Thomas, cyn aelod o'r Cynulliad oedd yn bennaf gyfrif am ei agor er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn y Ddinas i gymdeithasu yn y Gymraeg a chlywed cerddoriaeth Gymraeg y byd pop a roc. Pen-blwydd hapus i Glwb Ifor Bach.

Troy a Throi

Nos Sadwrn 23 Chwefror perfformiwyd y pantomeim "Troy a Throi" gan Glenys Evans i godi arian tuag at Gronfa Apêl yr Eisteddfod. Roedd neuadd Ysgol Glantaf yn llawn ar gyfer y perfformiad bythgofiadwy unigryw gan rai o sêr cylch yr Eglwys Newydd .

Siampên oedd yr arlwy mewn noson 'Cytgan a Siampên' yng Nghlwb Golff Llanisien ar 16 Chwefror i godi arian tuag at yr Eisteddfod. Mae aelodau'r côr siambr Cytgan yn hanu o bob cwr o Gymru a chyflwynwyd noson arbennig o gerddoriaeth i gynulleidfa werthfawrogol. Yn ystod yr egwyl mwynhawyd gwydraid o Siampên Llysfaen, rhodd gan John Albert Evans. Hefyd bu ocsiwn o ddarlun o Dale gan yr arlunydd Wyn Davies.

Cytgan yng Nghlwb Golff Llanisien

Dylan Jones

Gwasanaeth adeiladu a dylunio gerddi.

Ffon gartref : 20512567

Symudol : 07890134514

Meithrinfa garth olwg Day Nursery

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Chwilio am ofal dydd drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhentre'r Eglwys ger Pontypridd?

Mae staff profiadol a brwdfrydig y feithrinfa yn cynnig gofal ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i blant o chwe wythnos oed hyd at oed ysgol mewn awyrgylch deniadol, ysgogol a chyfeillgar.

Oriau agor – 7.30am – 6.00pm – Llun - Gwener

Am becyn gwybodaeth ffoniwch:
01443 209120 neu ewch i www.mym.co.uk

Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Gwella'r wefan

Mae Ysgol Pwll Coch wedi adnewyddu a gwella ei gwefan. Mae'r athrawon wedi creu tudalen ar gyfer pob dosbarth yn yr ysgol. Gall rhieni glicio ar y gair 'dosbarthiadau' a mynd i'r dosbarth priodol lle y bydd gwaith cartref eu plentyn yn cael ei arddangos bob dydd Gwener. Hefyd ar dudalen dosbarth eu plentyn ceir cysylltiadau â gwefannau addas. Mae'r athrawon wedi penderfynu pa wefannau sydd fwyaf addas ar gyfer y dosbarth gan ystyried oedran y disgyblion a'r themâu y maent eu hastudio. Mae holl ddogfennaeth yr ysgol hefyd wedi'i gosod ar dudalen arbennig a chyn bo hir bydd ffotograffau o holl weithgareddau a theithiau'r ysgol yn cael eu harddangos ar dudalen "oriel" hefyd.

Casgliadau i helpu'r amgylchedd

Cofiwch ein bod yn casglu hen ffonau symudol. Rydym yn gallu cyfnewid yr hen ffonau symudol hyn am arian a gall eich plentyn dderbyn anrheg. Mae gennych tan ddiwedd y tymor i'w dychwelyd.

Casglwyd cannoedd o hen lyfrau 'tudalennau melyn' ar gyfer cystadleuaeth amgylcheddol. Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgyrch ailgylchu.

Hoffwn eich atgoffa ein bod yn casglu papur gwastraff megis papurau newydd, cylchgronnau, 'junk mail' ac yn y blaen. Rhowch y papur yn y bin melyn anferth wrth gatiau'r ysgol. Rydym yn derbyn arian bob tro mae'r bin yn llenwi!!

Llongyfarchiadau

Hoffwn longyfarch Miss Carys Alun a'i phartner Norman, ar enedigaeth Selyf. Mae Selyf yn fachgen bach del iawn ac mae'r ddau wrth eu bodd. Llongyfarchiadau mawr eto !!!

Disgo Santes Dwynwen

Cynhaliodd y Cyfeillion ddisgo Santes Dwynwen hwyliog iawn yn neuadd yr ysgol. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn a chodwyd dros £600!! Ardderchog wir. Hoffwn ddiolch i bawb a helpodd ar y noson ac am yr holl waith trefnu. Diolch o GALON rydym yn ei werthfawrogi.

Côr Godre'r Garth yn croesawu'r Moosburger Liedertafel nôl i Gymru

Amser Pasg bydd Côr Godre'r Garth yn croesawu côr o'r Almaen nôl i Gymru. Bydd y Moosburger Liedertafel, côr cymysg o ardal Moosburg, Bafaria yn cyrraedd ar ddydd Llun y Pasg ac yn treulio wythnos gydag aelodau o Gôr Godre'r Garth a'u teuluoedd. Uchafbwynt yr wythnos fydd perfformiad o Offeren Schubert yn G gyda'r ddau gôr yn perfformio'r darn ar y cyd yn Lladin. Cynhelir y perfformiad yn Eglwys Dewi Sant, St Andrew's Crescent, Caerdydd, am 7:30pm nos Iau 27 Mawrth 2008.

Mae Godre'r Garth eisoes yn brysur gyda'r paratoadau: "Cawsom ni groeso mor wresog ym Mafaria amser Pasg 2006 fel ein bod ni'n awyddus i sicrhau bod ymweliad yr Almaenwyr â Chymru'n un bythgofiadwy", meddai David Davies, cadeirydd y côr. "Rydym ni wrthi'n trefnu tripiau i'r Almaenwyr ynghyd â sicrhau cyngerdd llwyddiannus ar y nos Iau. Ar y nos Wener byddwn yn cynnal noson gymdeithasol o dwmpath a chanu."

Mae'r cysylltiad rhwng Godre'r Garth a chôr Moosburg yn dyddio nôl i ddechrau'r wythdegau pan ddaeth y ddau gôr at ei gilydd am y tro cyntaf. Dyma fydd ymweliad cyntaf yr Almaenwyr â Chymru ers dechrau'r wythdegau, felly bydd yn gyfle i gwrdd â hen ffrindiau unwaith eto ac i ddod i adnabod y llu o aelodau newydd sydd wedi ymuno â'r ddau gôr ers hynny. Roedd rhai o aelodau'r ddau gôr heb eu geni pan sefydlwyd y cysylltiad.

Ceir manylion pellach am daith Pasg 2006 i'r Almaen ynghyd â llu o luniau, fideo a darnau o'r wasg Almaeneg ar wefan y côr: www.corgodrergarth.com

Rhoi dechrau da i blant

Mae ymgyrch i annog plant ifanc iawn i fwynhau llyfrau yn cael ei hyrwyddo ar draws y wlad mewn cynllun llwyddiannus a elwir yn `Dechrau Da'. Cynhelir diwrnodau chwarae, amserau straeon, rhigymau a chaneuon mewn nifer o lyfrgelloedd ac mae gan ymwelwyr iechyd rôl bwysig i ysgogi'r plentyn i ddwlu ar lyfrau hefyd.

Mae amser chwarae yn gymaint o hwyl a gellir anwesu, gwasgu a theimlo pob tudalen yn Chwarae gyda Cymro / Playtime with Cymro gyda'r ci bach annwyl Cymro yn ein tywys drwy'r llyfr. Baban prysur iawn blwydd oed yw Twts ac wrth i bawb baratoi ar gyfer ei pharti pen-blwydd mae yna un cwestiwn sy'n poeni pawb sef Ble mae Twts?

Mae ABC Dewin y Ci / Dewin the Dog yn llawn lluniau lliwgar a syml gan Maggy Roberts o Gaerfyrddin. Golwg newydd ddoniol ar stori gyfarwydd sydd yn Y Tri Mochyn Bach Cas a'r Blaidd Mawr Caredig gan Liz Pichon a addaswyd i'r Gymraeg gan Sioned Lleinau.

Chwarae gyda Cymro/Playtime with Cymro £3.99

Ble mae Twts?/Where's Twts ? Chris Glynn £4.99

ABC Dewin y Ci/Dewin the Dog Maggy Roberts £4.99

Y Tri Mochyn Bach Cas a'r Blaidd Mawr Caredig gan Liz Pichon addas. Sioned Lleinau £4.99. Gwasg Gomer.

Ymgyrch dros Stampiau Post Cymreig

Yn ystod y flwyddyn trefnir dirprwyaeth i gyfarfod â Swyddfa'r Post yng Nghymru er mwyn cyflwyno argymhellion ynghylch cyhoeddi stampiau post Cymreig. Os derbynnir ei hargymhellion cyhoeddir y stampiau hyn bedair gwaith y flwyddyn mewn setiau o 8-10 stamp a fydd yn seiliedig ar themâu arbennig. Bydd y Ddraig Goch a'r gair 'Cymru' i'w gweld ar bob stamp. Argymhelliad arall yw y dylid creu amlenni ar gyfer dathliadau arbennig megis Dydd Gŵyl Dewi, a phecynnau sy'n cynnwys gwybodaeth am y stampiau Cymreig newydd a gaiff eu dosbarthu i bob ysgol, llyfrgell a chanolfan addysg yng Nghymru. Rhagwelir y bydd angen creu Corfflu Cymreig i fod yn gyfrifol am y gwasanaeth, ynghyd â'r gwaith trefnu.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wybod rhagor am yr ymgyrch hon cysylltwch â'r Trefnydd, Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, Llanrug, LL55 3BB.

Gweithgareddau Pasg yn Sain Ffagan

I nifer o bobl, cysylltir Pasg ag wyau siocled, ond beth am flasu rhywbeth gwahanol eleni?

Ym mis Mawrth bydd Amgueddfa Werin Cymru yn canolbwyntio ar ddiet pobl yr Oes Haearn a'u bwydydd yn y Gwanwyn, drwy arbrofi gyda thechnegau coginio yn y Pentref Celtaidd (21 - 24 Mawrth 2008, 11am - 1pm & 2pm - 4pm).

Dysgwch am blannu tatws ym Mhrydain yn sgil y rhyfel, yng ngherddi'r Amgueddfa ar 21 Mawrth o 2 – 3pm ac ymunwch mewn sesiwn Hau Hadau'r Gwanwyn yn yr ardd lysiau ar 26 Mawrth (2 – 3pm) i gael gwybod pa hadau y dylech eu plannu nawr.

Symudwyd atyniad diweddaraf Sain Ffagan - Eglwys Teilo Sant - fesul carreg o Landeilo Tal-y-bont wrth ymyl Pontarddulais i'r Amgueddfa. Fe'i henwyd ar ôl sant Cymreig o'r 6ed ganrif, Teilo sef nawddsant ceffylau a choed ffrwythau. Mae'r Eglwys unigryw hon, sydd wedi'i hadfer i edrych fel y byddai wedi bod tua 1520, ar agor i'r cyhoedd ei mwynhau rhwng 10am - 5pm bob dydd.

Ceir rhagor o wybodaeth am Sain Ffagan ar ein gwefan www.amgueddfacymru.ac.uk.

Berw'r Bae 08

Unwaith eto eleni cynhelir gŵyl gelfyddydau trefol flynyddol, Berw'r Bae, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru rhwng Mawrth 14 – 16.

Mae'r ŵyl, a noddir gan Legal & General am yr ail flwyddyn yn olynol, yn rhoi cyfle unigryw i bobl ifanc brofi nifer o wahanol ffurfiau ar gelfyddyd drefol, o hip hop i rapio, o freg-ddawnsio i graffiti, a chymryd rhan ynddynt. Dywed Fiona Allan, Cyfarwyddwraig Datblygu'r Celfyddydau a Chynulleidfa yn y Ganolfan, 'Yn ddi-os mae hwn wedi dod yn ddigwyddiad o bwys i bobl ifanc ar draws De Cymru. O'r cychwyn diben Canolfan Mileniwm Cymru oedd apelio at bobl ifanc o bob oedran a chefndir. Felly mae'n wych gweld cannoedd o bobl ifanc egnïol yn defnyddio'r Ganolfan fel eu gofod creadigol eu hunain. Mae'r penwythnos hwn yn dangos sut y mae'r Ganolfan yn berthnasol ac yn werthfawr i bobl ifanc yn ogystal ag i bob grŵp arall."

Dau o uchafbwyntiau Berw'r Bae 08 fydd Upswing Aerial a 2FaceD Dance Co. Bydd UpSwing yn perfformio Loved Up, a grëwyd mewn cydweithrediad â'r arloeswr Hip Hop, Jonzi D, sy'n cyfuno hip-hop â dawnsio awyrol, gan wthio'r gelfyddyd i'r eithaf. Bydd 2FaceD Dance Co, un o brif gwmnïau dawns y DU, yn perfformio cyfuniad di-dor o freg-ddawnsio, dawnsio stryd a dawnsio cyfoes, yn Stiwdio Weston.

Cynhelir nifer o weithdai yn ystod y penwythnos dan arweiniad tiwtoriaid proffesiynol a hynod dalentog, gan gynnwys gweithdai ar freg-ddawnsio, Djio, Mcio, graffiti, cyfansoddi caneuon, sgiliau syrcas, sgiliau awyrol 'bungee', paffio curiad, dawnsio stryd ac am yr ail flwyddyn yn olynol, rap Cymraeg. Am y tro cyntaf hefyd bydd Berw'r Bae yn cynnal gweithdai i bobl ifanc â nam ar eu golwg.

Bydd 2FaceD Dance Co yn perfformio ar 14 Mawrth (tocynnau yn £10, nifer cyfyngedig o docynnau ar gael am bris gostynol o £5 i bobl ifanc dan 26 oed) ac UpSwing Aerial ar 15 – 16 Mawrth. Er mwyn archebu eich tocynnau ffoniwch Swyddfa Docynnau a Gwybodaeth y Ganolfan ar 08700 40 2000 neu ewch i: www.wmc.org.uk

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Nia Jones ar 02920 636403 6403 / nia.jones@wmc.org.uk neu Esther Eckley ar 029 20636428 / esther.eckley@wmc.org.uk

COLOFN CF1

Mwynhaodd y côr ddechrau cyffrous i'r flwyddyn. Bum yn canu mewn cyngerdd ar gyfer iechyd y galon, a gobeithiwn yn fawr bod yr elusen wedi gwneud elw o'r noson. Pleser oedd cael bod yno.

Bum hefyd yn ffilmio hysbyeb codi canu ar gyfer S4C. Yn yr hysbyseb y mae'r côr yn lleisio gêm rygbi – ac yn gwneud rhywfaint o symud hefyd! Och a gwae!

Ddydd Sadwrn cawsom yr anrhydedd o ganu yn y Stadiwm gyda chôr coleg y drindod cyn gêm Cymru yn erbyn yr Eidal. Profiad hollol wefreiddiol a ddaeth â deigryn i lygaid nifer o'r aelodau 'rwy'n siwr. Cafwyd gêm bêldroed rhwng bechgyn y Drindod a bechgyn CF1 cyn y gêm rygbi ar gaeau Soffia. Yn anffodus, nid oedd y sgôr cweit cystal a sgôr y gêm rygbi . . . ond wnawn ni ddim ymhelaethu ymhellach!

Ar y 1af o Fawrth fe fyddwn yn canu yn y Senedd. Pob hwyl i bawb ar yr orymdaith! Yna, ar y 5ed o Ebrill, byddwn yn cadw cyngerdd ym Mhontarddulais. Croeso cynnes i bawb!

Y mae ambell un o'n haelodau wedi bod yn dathlu llwyddiannau hefyd! Llongyfarchiadau i Ffion James a Martyn ar eu dyweddïad, a llongyfarchiadau i Ifan Plemming ar ennill y goron yn yr Eisteddfod Ryng-golegol! Pob hwyl i Sioned ar ei thaith i Awstralia, a chroeso adref i Elin Rhys! Bydd un o'n haelodau yn cystadlu gyda'i fand nos Wener yng nghystadleuaeth Cân i Gymru – Pob lwc iddo! Yn olaf, llongyfarchiadau mawr i Rhiannon Davies ar gyrraedd y rownd gyn-derfynnol yng nghystadleuaeth Miss Wales! Pob hwyl yn y rownd olaf!

Newyddion o'r Eglwysi

Eglwys y Crwys

Y GRŴP MERCHED

Nos Lun 4ydd Chwefror cafodd y Grŵp Merched noson gyfoethog yng nghwmni Walter Ariel Brooks, gŵr a'i wreiddiau yn ddwfn ym Mhatagonia. Roedd y teulu ar ochr y tad o dras Gymreig ond Archentwraig oedd y fam, a Sbaeneg felly oedd iaith yr aelwyd. Fodd bynnag daeth Walter i gysylltiad â'r Gymraeg trwy gyfrwng athrawon ymroddedig a manteisiodd yn llawn ar y cyfle i ddod yn rhugl yn iaith ei gyndadau. Noson i'w chofio a'i thrysori.

Y GORLAN

Ddydd Mercher 23ain Ionawr bu Garwyn Davies yn annerch yr aelodau a chafwyd ganddo beth o hanes rhai o'r teithiau y bu arnynt ers ei ymddeoliad. Rhois ddisgrifiad o un o'i deithiau cerdded i ben Cadair Idris heibio i Lyn Cau a anfarwolwyd gan Kyffin Williams, aeth â ni i Cape Town a chrwydro ar hyd y Garden Route, cyn troi am wlad Groeg ac ymweld â'r oracl yn Delphi. Daeth y teithio i ben yn nhalaith Virginia yn yr Unol Daleithiau.

Bythefnos yn ddiweddarach ein gwraig wadd oedd Myra Jenkins, ac mewn sgwrs ddifyr a gwerthfawr cawsom ganddi beth o hanes ei chefndir yn y Rhondda lle y'i magwyd. Pwysleisiodd fod poblogaeth yr ardaloedd glofaol yn gymysg iawn; roedd ei thad yn hanu o Sir Forgannwg ond ei mam ar y llaw arall a'i gwreiddiau yn ddwfn yn ardal Pontrhydfendigaid yn Sir Aberteifi ac yno ar dro yr âi Myra am ychydig o wyliau.

Ar yr 20fed Chwefror ein siaradwr gwadd oedd Gerald Latter a chafwyd ganddo brynhawn difyr yn olrhain hanes John Grooms, gŵr a gysylltir â llawer o waith dyngarol yn Llundain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gweithiodd yn galed i geisio dileu tlodi ym mhlith merched diwaith y ddinas trwy eu harwain i werthu blodau a nwyddau eraill ar y strydoedd ac mewn marchnadoedd. Prynhawn cymdeithasol gwerthfawr.

Ebeneser, Heol Siarl

Cinio dechrau'r flwyddyn

Mae wedi dod yn draddodiad i aelodau Cymdeithas y Chwiorydd gychwyn y flwyddyn newydd gyda chinio canol dydd yng ngwesty'r Marriott.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf eleni ar 31 Ionawr. Cafwyd gwledd fel arfer ac roedd pob un o'r 27 aelod yn bresennol, gan gynnwys yr aelod cyfetholedig, Alun Tudur! Mwynhaodd pawb y bwyd a oedd wedi'i baratoi yn hyfryd a'i gyflwyno'n gelfydd.

Bedydd

Ar fore Sul 10 Chwefror, bedyddiwyd Megan Elin, merch Gareth Carwyn ac Anwen Jones, a chwaer fach Catrin a Bethan. Ymunodd y teulu estynedig a chriw o'u ffrindiau, gyda'r gynulleidfa, i dystio i gyflwyniad y plentyn bach i deulu'r eglwys yn Ebeneser. Fel gwneir i bob plentyn bach a fedyddir, cyflwynodd Alun Tudur gopi o'r 'Beibl Bach i Blant' i'w dechrau ar eu taith i ddysgu am Iesu. Pob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.

Y Gymdeithas

Melfyn Hopkins a Lyn Jones oedd y cwis feistri ar nos Fawrth, 19 Chwefror mewn noson gystadleuol ond llawn hwyl a bwrlwm. Roedd pedwar tîm yn brwydro yn erbyn ei gilydd sef Heb fawr o syniad, Scarlets, Bytholwyrdd a Tan y Wenallt. Roedd wyth rownd ar destunau megis celfyddyd, cerddoriaeth, crefydd, daearyddiaeth a Chymru.'Y Scarlets' oedd yn fuddugol a'r wobr oedd bocs o felysion siocled. Codwyd £106 ar gyfer 'Cancer Care Cymru' ein helusen am eleni. Diolch i bawb fu'n ymwneud a'r trefniadau.

MARWOLAETHAU

Collwyd o'n plith nifer o'n haelodau yn ystod y misoedd diwethaf, cydymdeimlir yn fawr â theuluoedd Kate Lewis, Heledd Wyn Jones a Gerwyn Llywelyn

AELODAU NEWYDD

Derbyniwyd i'n plith ddwy aelod newydd ar ddechrau'r flwyddyn, sef Mrs Nansi Williams a ddaeth atom o Flaenau Ffestiniog a Bethan Pillips o Goedpoeth ger Wrecsam.

Eglwys Dewi Sant

Bedydd

Fore Sul, 17 Chwefror, bedyddiwyd Ted Gruffydd Edwards-Owen gan y Parchedig Gwynn ap Gwilym. Yn Newi Sant y priodwyd ei rieni, Tomos a Rebeca, a chysylltiad teulu ei dad yn mynd yn ôl ymhellach na hynny gan fod Elinor, (Talfan Davies gynt),- un o 'blant yr eglwys', yn famgu i Ted.

Murluniau

Cyn dau ddegau'r ganrif ddiwethaf roedd muriau mewnol Eglwys Dewi Sant, (neu St. Andrew's yr adeg honno), wedi eu haddurno â murluniau a phaneli addurnedig, ond aethpwyd ati i'w cuddio o dan haenau o baent!

Tybir mai gwaith Charles F.A. Voysey, (arlunydd, dylunydd, crefftwr a phensaer), oeddynt. Roedd gwaith Voysey yn null a thraddodiad y Mudiad Celfyddyd a Chrefft a gysylltir â William Morris a'i gyd-grefftwyr.

Gwnaed cais am grant a gobeithir dadorchuddio ac adfer darn neu ddau o'r gwaith celf yma - i'w harddangos i'r cyhoedd ac i'r sawl sydd â diddordeb yn y Mudiad Celfyddyd a Chrefft.

J Cyril Hughes

Llyfrnodau

Diolch i Gwyn Hopkins am greu pedwar deg llyfrnod arbennig – gyda llun o'r capel ac adnod arnynt. Codwyd £80 drwy'r ymdrech hwn ar gyfer yr elusen.

Bara Beunyddiol

"Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol," oedd testun ail fyfyrdod y Grawys Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Yr oedd yr agoriad yn nwylo medrus y Parch. Dafydd Andrew, Salem, Treganna. Fe'n harweiniodd i ystyried y bara corfforol ac ysbrydol a gawn gan Dduw a'n cyfrifoldeb i rannu'r cyfryw gyda'n cyd-ddyn. Cynhaliwyd y cyfarfod yn festri Ebeneser ar nos Iau 21 Chwefror.

Tabernacl, Yr Ais

Genedigaethau
Llongyfarchiadau i Huw ac Amanda Thomas ar enedigaeth eu mab cyntaf, brawd bach i Manon, ŵyr i Mary a Graham. Maent ar hyn o bryd yn byw yn Llundain

Yn yr un modd, anfonwn ddymuniadau da at David a Wei Edwards yn Singapore ar enedigaeth eu mab Owen, brawd i Nia ac ŵyr i John a Gill Thomas. .

Llawenhawn hefyd gydag Elin ac Andrew Mannion ar enedigaeth Seth Joseff, ŵyr i Siân a Howard Phillips a gor-ŵyr i Megan Phillips.

Noson Jazz a Lasagne
Diolch i Bwyllgor Cyngherddau Cronfa'r Organ am drefnu noson ddifyr a gwahanol yn y festri. Mwynhawyd y lasagne tra'n gwrando ar Roy Saer yn chwarae jazz wrth y piano. Ar ôl y tri chwrs, gwahoddodd Euros Rhys Evans, llywydd y noson a chadeirydd y pwyllgor, bedwarawd y Round House Jazz Ensemble i'n diddanu - noson lwyddiannus dros ben.

Bore Coffi
Diolch i Jean a Viv Evans am eu croeso cynnes i'w haelwyd yn Nhongwynlais. Gwahoddwyd pawb i fwynhau cymdeithas debyg ar aelwyd Julia ac Illtyd Lloyd ar fore Mercher 20 Chwefror.

Cymdeithas Nos Fawrth
Bu'n cyfnod prysur yn ddiweddar - ddiwedd Ionawr daeth Dr Karl Clowes i roi anerchiad diddorol dros ben ar 'Dolen Cymru a'i Hanes a'i Waith'. Ar ddechrau mis Chwefror fe ddifyrrwyd y Gymdeithas gan 5 o aelodau Cwmni'r Gadwyn o'r Radur - a'u dewis o thema oedd 'Pigion o'r Cyfansoddiadau -: Hwyl yr Ŵyl'. Roedd hi'n noson ddifyr o ddarlleniadau. - barddoniaeth a rhyddiaith. Wedyn Noson Gerddorol wych yng nghwmni Eilonwy Jones a gafwyd ganol mis a Gethin Matthews yn cloi gweithgareddau Chwefror wrth sôn am y Cymry yn y Rhuthr Aur yng Ngholumbia Brydeinig.

Noson at Glinig Caselin yn Lesotho
Mwynhawyd Swper swmpus yng nghartref Glenys a Ron Lindsay ar y 1af o Chwefror. Daeth bron i ddeugain o aelodau a ffrindiau draw a chasglwyd £255 ar y noson. Diolch i'r Lindsays am y croeso a'r paratoi.

Salem Treganna

Prynhawn Chwaraeon
Daethom at ein gilydd brynhawn Sul y 13eg yng nghanolfan hamdden y Tyllgoed i fwynhau prynhawn o chwaraeon. Roedd pawb wedi mwynhau, wrth wneud amrywiaeth o chwaraeon yn ystod y prynhawn. Cawsom luniaeth ysgafn gyda'n gilydd a gwasanaeth byr cyn gorffen. Diolch i bawb am ddod.

Clwb Brecwast
Mae'r clwb yn mynd o nerth i nerth, ac mae sawl siaradwr anffurfiol wedi ymuno â ni yn ystod y misoedd diwethaf, i drafod materion tebyg i fwyd organig. Croeso mawr i rieni a'u babanod i ymuno â ni fore Mercher ddwywaith y mis.

Talwrn
Diolch o galon i Gymdeithas Eglwys Minny Street am ein gwahodd am noson o Dalwrn, ar nos Fawrth yn ystod mis Chwefror. Diolch am eich croeso mawr, ac fe gafwyd noson hynod o hwyliog. Diolch i bawb o'r ddwy eglwys am drefnu ac am gyfrannu tuag at y noson.

Marwolaethau

Cydymdeimlo â
theulu'r diweddar Kate Lewis, yr Eglwys Newydd a fu farw yn dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar 8 Ionawr. Bu'r angladd yn Eglwys y Crwys ar 25 Ionawr ac yna yn Amlosgfa'r Ddraenen.

Bronwen James, Rhiwbeina a'r teulu ar farwolaeth ei gŵr Gwynfor James, gynt o Langadog, Sir Gaerfyrddin, ar 19 Ionawr. Bu'r angladd yng Nghapel Beulah ar 30 Ionawr ac yna yn Amlosgfa'r Ddraenen.

theulu'r diweddar Dr Ceinwen Thomas a fu farw'n dawel ar ôl cystudd hir yn 96 mlwydd oed mewn Cartref yn Hengoed. Bu'r angladd yng Nghapel Tonyfelin, Caerffili ar 7 Chwefror ac wedi hynny yn Amlosgfa'r Ddraenen.

theulu'r diweddar Dr Heledd Wyn Jones, Llandaf a fu farw dan amgylchiadau trist yn 35 mlwydd oed ar 27 Ionawr. Bu'r angladd yng Nghapel Crwys ar 8 Chwefror ac wedi hynny yn Amlosgfa'r Ddraenen.

HOFF EMYN PANTYCELYN

Eleni, mae'r gyfres *Dechrau Canu Dechrau Canmol* am ddarganfod beth yw hoff emyn y Cymry gan y pêr-ganiedydd William Williams, Pantycelyn. Dewiswyd rhestr fer o 12 emyn gan reithgor yn cynnwys Yr Athro Derec Llwyd Morgan, Dr Katherine Jenkins, Trystan Lewis, Robert Nicholls a Delyth Morgans.

Mae modd i chi bleidleisio dros eich hoff emyn drwy ffonio 01443 688500 neu drwy ymweld â safwe Dechrau Canu Dechrau Canmol ar www.s4c.co.uk/dechraucanu
Bydd yr emyn sy'n dod i frig y rhestr yn cael ei ddatgelu mewn rhaglen arbennig o Lido Afan, Port Talbot ar nos Sul, Mawrth 9fed

Gallwch ddewis o'r rhestr ganlynol o emynau:

EMYN	TÔN
1. Iesu, difyrrwch f'enaid drud	Grafenberg
2. O nefol addfwyn Oen	Rhosymedre
3. Enynaist ynof dân, perffeithiaf dân y nef	Y Faenol
4. O tyred, Iôr tragwyddol	Whitford
5. Iesu, Iesu, 'rwyt ti'n ddigon	Llwynbedw
6. O llefara, addfwyn Iesu	Hyfrydol
7. Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar	Tŷ Ddewi
8. Yn Eden, cofiaf hynny byth	Buddugoliaeth
9. Pererin 'wyf mewn anial dir	Amazing Grace
10. Dal fi, fy Nuw, dal fi i'r lan	Arizona
11. Cudd fy meiau rhag y werin	Tyddyn Llwyn
12. Tyred, Iesu, i'r anialwch	Blaenwern

YSGOL PLASMAWR

Sioe Ffasiwn Plasmawr 2008
Cynhaliwyd sioe ffasiwn yr Adran Dechnoleg yn neuadd Ysgol Plasmawr ar nos Fercher 23ain o Ionawr. Bu bwrlwm mawr am wythnosau cyn y sioe wrth i ddisgyblion blynyddoedd 8 – 13 orffen eu gwisgoedd ar gyfer yr achlysur.

Daeth cwmni teledu Mosgito i mewn i ffilmio'r paratoadau a hefyd y sioe.
Roedd dros 100 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y sioe ffasiwn a daeth cwmni trin gwallt a cholur o Landaf, sef Kamigata i steilio'r disgyblion a staff a ymddangosodd ar y 'catwalk'.

Agorwyd y noson gyda chwmni dawns bywiog iawn, 'Jukebox' yn perfformio dawns stryd. Roedd hanner cyntaf y noson yn seiliedig ar themâu arbennig sef Steil Stryd yn Japan, Ffasiwn y 1920au, Roc a Rôl y 50au, 'New Rave', Hipis y 60au a steil Milwrol.

Yn yr ail hanner bu'r disgyblion yn modelu eu creadigaethau eu hunain - a gynhwysai, ymhlith pethau eraill, hetiau sgïo fflis lliwgar, sgertiau Applique yn seiliedig ar thema 'Castell Coch' a ffrogiau hwyrnos. Roedd cynulleidfa o 250 yn bresennol i fwynhau'r noson.

Diolch i Nicola Heywood Thomas ac Arfon Haines Davies, cyflwynwyr y noson. Diolch hefyd i drefnydd y sioe ffasiwn, Mrs Clements, a'r holl staff a gyfrannodd at y noson hynod lwyddiannus hon a roddodd gyfle i nifer fawr o ddisgyblion ddangos eu gwaith ac amlygu eu hunain ar lwyfan. Edrychwn ymlaen at y sioe nesaf!.

Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Plas Mawr
Llongyfarchiadau i Manon Browning, blwyddyn 8, a ddaeth yn gyntaf yn yr adran iau ac i Emyr Honeybun, enillydd yr adran hŷn. Cafodd y ddau blât i ddynodi'r achlysur a siec hyfryd yn ogystal!

Burum gyda Llio Rhydderch ar daith ledled Cymru

Mae'r band Burum a'r delynores deires Llio Rhydderch yn mynd ar daith ledled Cymru yn chwarae alawon gwerin Cymreig ar eu newydd wedd. Bydd y daith yn gyfle i glywed dau fyd cerddorol yn uno ac yn cydweithio mewn noson greadigol o gerddoriaeth draddodiadol a jazz.

Burum yw un o fandiau mwya' arloesol Cymru sy'n uno alawon Gwerin Cymreig ag arddull jazz modern tra bod Llio Rhydderch yn adnabyddus fel prif delynores deires draddodiadol Cymru.

Rhyddhawyd CD cyntaf Burum 'Alawon (The Songs of Welsh Folk) ar label fflach:tradd y llynedd, a chafodd dderbyniad gwresog. Ers hynny mae'r band wedi mynd o nerth i nerth. Cafodd ei enwi fel band 'i'w wylio yn 2008' gan Gyfarwyddwr Gŵyl Jazz Rynglwadol Aberhonddu, felly manteisiwch ar y cyfle i glywed noson o gerddoriaeth o'r safon ucha' - peidiwch â'i cholli!

Dyddiadau'r Daith:
Nos Iau 6ed Mawrth – Canolfan Dylan Thomas, Abertawe
Nos Wener 7fed Mawrth – Clwb y Bont, Pontypridd (Burum yn unig – heb Llio Rhydderch)
Nos Iau 13eg Mawrth – Tŷ Siamas, Dolgellau
Nos Wener 14eg Mawrth – Galeri, Caernarfon
Nos Sadwrn 15fed Mawrth – Canolfan Ucheldre, Ynys Mon

Cysylltwch â Tomos Williams am fwy o wybodaeth ar: 07740464904 neu tomos.williams@gmail.com
www.burum.org
www.lliorhydderch.com

Creu ffilm
Cafodd grŵp bach o ddisgyblion o'r ysgol hon ac ysgolion eraill gyfle arbennig i weithio gyda chwmni Cinetig a chreu ffilm ar gyfer Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Ffilm ar Sefydliad Glofaol Oakdale ydyw o'r enw The Stute. Cafodd pawb gyfle i roi cynnig ar wneud gwaith animeiddio a chamera. Cyfansoddodd James Barnden o flwyddyn 11 gerddoriaeth gefndirol y ffilm. Enwebwyd y ffilm a bydd y disgyblion yn mynd i Lundain ar y 4ydd o Fawrth i Seremoni Wobrwyo First Light.

Eco-gyngor
Ym mis Ionawr cafwyd ymgyrch cardiau Nadolig yma yn yr Ysgol. Llwyddodd disgyblion yr Eco-gyngor i ailgylchu 12 sach llawn o gardiau.

Ein hymgyrch bresennol yw ailgylchu ffonau symudol ar gyfer Cymorth Cristnogol.

Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

Caerdydd a'r Cylch
Awst 2 – 9 2008

NEWYDDION O SWYDDFA'R EISTEDDFOD

Pwyllgorau Apêl
Gyda'r Eisteddfod ond ryw 5 mis i ffwrdd mae hi'n mynd i fod yn gyfnod prysur iawn i'r pwyllgorau apêl gyda nifer o ddigwyddiadau ar y gweill:
MAWRTH 14eg: Gig 6 Gwlad - Bryn Fôn a'r Band. Noson cyn gêm Cymru a Ffrainc. Clwb Trydan Pontcanna am 8yh. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch apel.eisteddfod@btinternet.com
MAWRTH 14eg: Fflics, Ffagots a Phys 7.30yh, Ysgol Creigiau. Ar drothwy'r gêm. Ffilm Bar Raffl Tocynnau £8 Enid Davies 20890618
MAWRTH 19eg: Cyngerdd Adran Bres Coleg Cerdd a Drama ynghyd â Symphonic Brass i'w gynnal yn Eglwys St Andrew a St Teilo. Tocynnau yn £5 a £3.Cysylltwch â'r Coleg ar 209 2039 1391 am fwy o wybodaeth.
EBRILL 5ed: Hanner Pei yng Nghlwb Ifor Bach am 8yh.Am fwy o wybodaeth e-bostiwch apel.eisteddfod@btinternet.com

Os oes unrhyw ddigwyddiadau eraill yr hoffech roi ar wefan yr Eisteddfod yna cysylltwch â Siwan ar 029 2076 3777 neu drwy e-bost at siwan@eisteddfod.org.uk

Dyddiadau Cau
Nodyn i atgoffa pawb sy'n bwriadu cystadlu yn y cystadlaethau isod fod y dyddiadau cau yn prysur agosáu:
Mawrth 31: Dysgwr y Flwyddyn
Ebrill 1af : Cystadlaethau Cyfansoddi
Mai 1af : Cystadlaethau Llwyfan
Am fanylion pellach cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU Ffôn: 029 2076 3777 E-bost: gwyb@eisteddfod.org.uk

CROESAIR Rhif 82 gan Rhian Williams



Atebion i: 22, Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6AN i gyrraedd erbyn 20 Mawrth 2008.

Ar Draws
1. Dewis dechrau'r grawn dreiniog (5)
7. Niweidiol o'n dwylo garw (7)
9. Rhywsut af at Eli i'r parthau hyn (7)
10. Y wers wirion mewn dim afresymol (7)
11 Yn ddynol gefnu ar heolydd (5)
12 Ail-wneud wedi taflu y ryg (9)
16 A yw tân Daloni yn creu difyrrwch? (9)
20 Perthynas yn rhif mewn drama ysbyty (5)
21 Gorfoledd heb ddim yn troi'n naturiol (7)
24 Gwlad y Traws Ia efallai (7)
25. Yn plygu gerbron Ali o ddyn efallai (2,5)
26 Ai da uno y marciau? (5)

I Lawr
1. Llestri y peilot meddw (6)
2. Rhoi a fynno mewn gôl angenrheidiol (8)
3. Newid agwedd 50 tuag at fwyta llawer (6)
4. Trawiad ar yn ail gafodd tadcu (4)
5 Gofalwr yn dechrau noddi Ysgol Ramadeg Sirol (4)
6. Cymalau digalon yn troi'n rhwymau (6)
8. Mae llawer mewn difri (5)
13. Torri tir wedi dau (3)
14. Gweld coed yn llygad y ffynnon (3)
15. 'Y cof am Galfaria, ac aberth y groes, ___ ___ lonydda fôr tannog fy oes' (H.C.W) (2,4)
16. Crybwylliad yn dymchwel magwyr (6)
17. 'Hapus dyrfa Sydd yn ____ yn ei hedd' (W.T) (5)
18 Paratoi te neis a chacen (6)
19 Bu iarll yn trefnu blodau (6)
22 Ie, ysgaru ar yn ail wna brawd Jacob (4)
23 'Mi glywaf dyner ____ Yn galw arnaf i'. (J.R.) (4)

Côr Dynion Hoyw De Cymru

Mae'r ddinas yn dathlu sefydlu côr newydd, sef Côr Dynion Hoyw De Cymru. Mae'r Côr, sydd â thri aelod Cymraeg, wrthi'n dysgu 'Myfanwy' ar hyn o bryd. Dywedodd Matthew Rees, un o'r tri "Cawsom ein hysbrydoli gan y corau hoyw eraill yn Llundain, Brighton a'r Alban. Cafodd y côr ei recriwtio trwy wefan 'Facebook' ac rydym yn gobeithio cystadlu mewn gwŷl hoyw yn Brighton yn hwyrach eleni. Bydd yn braf iawn cael dathlu ein Cymreictod a'n rhywioldeb ar y cyd".

Mae'r côr yn ymarfer bob nos Iau am saith o'r gloch yn Eglwys St Martin. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Matthew ar 02920 210390.

Atebion Croesair Rhif 81

Ar draws: 8 Filoedd o. 9 Brain. 10 Yfory. 11 Sylwebu. 12 Fod. 14 Nodded Gras. 17 Gweinidog. 19 Gwg. 20 Methiant. 22 Llachar. 24 Gwyro. 25 Yn dringo.
I Lawr: 1 Afrywiog. 2 Pluo. 3 Celynnen. 4 Gorsedd. 5 Ebol. 6 Llaneirwg. 7 Cnau. 13 Dieithryn. 15 Digolledu. 16 Segurdod. 18 Datrys. 20 Magl. 21 Aros. 23 Chwil.
Derbyniwyd 10 ymgais a 9 yn hollol gywir.. Danfonir y tocyn llyfr i H.O Hughes, Pwllheli.

Calendr y Dinesydd

Gwener, 7 Mawrth
Darlith Flynyddol Carnhuanawc. Darlithir gan Dr Jason Walford Davies (Bangor) ar y testun ' "Man of Letters": Gohebiaethau R. S. Thomas', yng Nghanolfan Chapter am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Mercher, 12 Mawrth
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: Parch. Owain Llŷr yn siarad am 'Gelfyddyd' am 7.30pm.

Mercher, 12 Mawrth
Cylch Cadwgan. Catrin Dafydd yn siarad ar y testun 'Argraffiadau Nofelwraig Ifanc' yn Festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Iau, 13 Mawrth
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur. Siaradwyr: Dianne ac Andrew Bartholomew. Enwau i law cyn 5 Mawrth. Manylion pellach: 029-2084-3275.

Iau, 13 Mawrth
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Myfyrdod y Grawys (3) dan arweiniad y Parch. Ddr D. Hugh Matthews yng Nghapel Minny Street am 7.30pm.

Iau-Gwener, 13-14 Mawrth
Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Y Pair', cyfieithiad Gareth Miles o 'The Crucible' gan Arthur Miller, yn Theatr Sherman am 7.30pm. Tocynnau: £14/£12; dan 19: £8. Ffoniwch: 029-2064-6900.

Gwener, 14 Mawrth
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Dros Gymru'n Gwlad': Arwel Vittle yn trafod ei gofiant i Lewis Valentine. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

Sadwrn, 15 Mawrth
Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Ann Davies am 11.00. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Llun, 17 Mawrth
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Gillian Green, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Mawrth, 18 Mawrth
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro J. Gwynfor Jones ar y testun 'Hil Ifor: Teulu'r Morganiaid o Dredegyr a'r Diwylliant Cymraeg'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Mawrth, 18 Mawrth
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: Cyngerdd Côr y Tabernacl am 7.30pm.

Mercher, 19 Mawrth
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Gwyddoniaeth: Ddoe, Heddiw, ac Yfory' gan Angharad Thomas (Y Sefydliad Ffiseg). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mawrth, 25 Mawrth
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: Noson o 'Ganu a Dawnsio' gan blant Adran Bro Taf am 7.30pm.

Iau, 27 Mawrth
Côr Godre'r Garth ynghyd â Chôr y Moosburger Liedertafel, Bafaria, Yr Almaen yn perfformio Offeren Schubert yn G Fwyaf a darnau amrywiol eraill yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, am 7.30pm. Tocynnau £6 / £4. Ymholiadau pellach: www.corgodrergarth.com.

Mawrth, 1 Ebrill
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: 'Brethyn Cartref' am 7.30pm.

Mercher, 2 Ebrill
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Brethyn Cartre, yng nghwmni Myfanwy Jarman a Gwen Môn Holt. Yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

Llun, 7 Ebrill
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Gwenno Dafydd. Manylion pellach gan Tony Couch (2075 3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

Mawrth, 8 Ebrill
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: Parch. Cynwil Williams yn siarad am 'Gyfeillion Dylanwadol' am 7.30pm.

Sadwrn, 12 Ebrill
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Y Gobaith a'r Angor' gan Dylan Rees yn Neuadd Llanofer, Treganna, Caerdydd. Tocynnau: 029-2063-1144 neu 01286-676335.

Mawrth, 15 Ebrill
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: Cyngerdd gan Gôr Cantemus am 7.30pm.

Sadwrn, 19 Ebrill
Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Amanda Griffiths am 11.00. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Sadwrn, 19 Ebrill
Noson yng nghwmni 'Ar Lôg' yng Nghlwb Trydan, Pontcanna. Trefnwyd gan Bwyllgor Apêl Llys-faen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*) a Rhydri Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008.

Sadwrn, 19 Ebrill
Côr Philharmonig Caerdydd. Cyngerdd yn cynnwys yr Offeren yn C gan Beethoven, yn Neuadd Gerdd y Brifysgol, Heol Corbett, am 7.30pm. Manylion pellach: 029-2062-6779.

Llun, 21 Ebrill
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. 'Pawb a'i Farn', yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Gwener, 26 Ebrill
Cymdeithas Eglwys y Crwys. Noson yng nghwmni Aelwyd y Waun Ddyfal, Caerdydd, am 7.30pm. Tocynnau: £5.

Mawrth, 29 Ebrill
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro Glyn E. Jones. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).